Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Bro Allta
# Central Street
# Ystrad Mynach
# Hengoed
# CF82 7XQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta yn nhref Ystrad Mynach a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Addysg Caerffili. Mae'r dalgylch yn cynnwys y dref a'r ardaloedd o'i chwmpas, gan gynnwys Nelson, Penpedairheol, Cefn Hengoed, Hengoed a Maesycwmer.

Ar hyn o bryd, mae 309 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 43 o blant meithrin rhan amser. Fe'u rhennir yn 11 o ddosbarthiadau. Cyflogir 14 o athrawon ar hyn o bryd, gan gynnwys y pennaeth, tair athrawes rhan amser ac un dros dro.

Mae 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol wedi adnabod bod ganddi 19% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysg ychwanegol nac mewn gofal.

Dynodir yr ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg. Cymraeg yw’r brif iaith a siaredir yn y cartref gan tua 12% o’r disgyblion ond, erbyn diwedd cyfnod allweddol dau, mae’r rhan fwyaf yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Does dim un disgybl yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig.

Cafodd yr ysgol ei sefydlu yn yr adeilad presennol yn 1993. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2010. Penodwyd y pennaeth yn Ebrill 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Allta yn 2014-2015 yw £2,792. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,106 a'r lleiafswm yw £2,645. Mae Ysgol Gymraeg Bro Allta yn safle 66ain o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a brwdfrydig sy'n gweithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau neu fel aelod o grŵp
- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn rhifedd ar draws yr ysgol
- Disgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh
- Athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu gwerthfawr sydd yn hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion
- Y ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n effeithiol
- Ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol, gydag ambell elfen o ragoriaeth

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau
- Llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn darparu synnwyr o gyfeiriad ar gyfer gwaith yr ysgol yn effeithiol
- Prosesau hunan arfarnu a sicrhau gwelliant yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau'r ysgol, yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd
- Arweinwyr yn sicrhau cysondeb mewn dulliau addysgu ar draws yr ysgol
- Gweithgareddau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol o ansawdd uchel

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion mwy abl, yn enwedig mewn llythrennedd

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol

A4 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athrawon

A5 Cryfhau llais y rhanddeiliaid yn y broses hunan arfarnu er mwyn dylanwadu'n fwy effeithiol ar weithdrefnau'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymysg iawn. Yn ystod eu blwyddyn cyntaf yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn mathemateg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymdrechu'n ddiwyd mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a brwdfrydig sy'n gweithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau neu fel aelod o grŵp. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn adeiladu ar y wybodaeth sydd ganddynt er mwyn datblygu medrau newydd.

Mae safonau medrau llafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn defnyddio geirfa eang wrth siarad yn anffurfiol. Mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen maent yn darllen gyda chywirdeb a mynegiant priodol. Maent yn trafod agweddau o lyfr yn ystyrlon gan ddangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol yn lled gywir at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu hanes Dewi Sant, disgrifio cymeriad ac ailadrodd stori yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae angen llawer o gefnogaeth ar y disgyblion mwy abl eu gallu er mwyn sicrhau strwythur cywir i'w brawddegau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau addas yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae eu cystrawen a'u gallu i dreiglo yn lled wallus ar lafar a chaiff hyn effaith ar gywirdeb eu hiaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon, gan ddefnyddio goslef llais i greu naws. Maent yn darllen gyda rhuglder a mynegiant, ac yn atalnodi er mwyn deall y testun. Erbyn blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig i safon fedrus gan ddefnyddio paragraffau i gyflwyno eu gwaith yn drefnus. Maent yn datblygu medrau priodol i ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau, er enghraifft sgript am daith i'r lleuad a chyfarwyddiadau ar sut i greu lamp lafa. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ystod o gystrawennau ac ymadroddion sydd yn Gymraeg eu naws.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn rhifedd ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn dehongli gwybodaeth sydd wedi ei chyflwyno mewn graffiau, amcangyfrif maint, mesur a defnyddio syniadau mathemategol priodol i ddatrys problemau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron bob un yn datblygu amrywiaeth o strategaethau pen ac ysgrifenedig o gyfrifiannu, ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru defnyddio iaith fathemategol gywir, nodiant a

symbolau i gynrychioli eu gwaith. Maent yn casglu data ac yn llunio graffiau priodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft, i ddangos effaith gweithgareddau corffol ar guriad y galon. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau TGCh yn gryfder yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu gallu i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae datblygiad disgyblion mwy abl eu gallu mewn rhifedd yn dda. Fodd bynnag, digonol yw eu datblygiad mewn llythrennedd.

Mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros gyfnod o dair blynedd. Er bod y canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig wedi gwella'n gyffredinol, mae eu perfformiad wedi bod yn y 50% is mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wrth gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn y canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch hefyd. Er y tuedd hwn, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 50% is wrth gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o dair blynedd. Er hynny, mae safon rhifedd a llythrennedd yn llyfrau'r disgyblion yn cadarnhau bod y rhan fwyaf yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ac yn cael eu herio'n briodol mewn rhifedd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi bod yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros gyfnod o bedair blynedd. Mae tuedd at i fyny mewn canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch. Fodd bynnag, ar y cyfan mae perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn y 50% is o'i chymharu ag ysgolion tebyg ymhob un o'r pynciau, er bod perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn y 50% uwch yn ddiweddar.

Nid oes patrwm amlwg ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar y lefel ddisgwyliedig o gymharu â disgyblion eraill. Fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion hyn ar y lefel uwch yn sylweddol is na'r disgyblion eraill dros gyfnod o amser.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn perfformio'n gyson uwch na'r bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg, gyda'r bechgyn yn perfformio'n gyson uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros gyfnod o dair blynedd.

**Lles: Digonol**

Mae agweddau cadarnhaol gan bron bob un o'r disgyblion at gadw'n iach a diogel, ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Er bod cyfradd presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd wedi cynyddu o 93.4% i 94.5%, mae cyfradd presenoldeb yn parhau yn y 50% isaf o'i gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae ymddygiad y disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae’r holl ddisgyblion yn dangos parch at ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr â’r ysgol. Maent yn gweithio’n dda gydag eraill i ddatrys problemau ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i’r ysgol.

Mae cyngor yr ysgol a’r cyngor eco yn cwrdd yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion wedi cael digon o gyfleoedd i leisio’u barn er mwyn cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau’r ysgol.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn datblygu’n effeithiol. Trwy gyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, er enghraifft canu yn yr ysbyty, archfarchnad leol ac ysgolion cyfagos, mae’r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i’r ardal leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Drwy gydweithio effeithiol, mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu gwerthfawr sydd yn hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu amrywiol sydd yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a’r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae’r cynllunio ar y cyfan yn drwyadl fodd bynnag, nid yw bob amser yn sicrhau cydbwysedd pynciol ac nid yw’n bodloni gofynion statudol i ddiwallu dibenion addysg grefyddol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith addas sydd yn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae darpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu’n effeithiol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth llythrennedd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae’r disgyblion yn derbyn profiadau gwerthfawr drwy ymweliadau preswyl i wersylloedd yr Urdd, a chyfleoedd i gydweithio gydag artist o Gymru a Bardd Plant Cymru.

Mae’r ysgol yn dechrau hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygu cynaliadwyedd yn foddhaol drwy waith y pwyllgor eco, er enghraifft trwy ailgylchu papur a chasglu sbwriel. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag ambell elfen o ragoriaeth. Mae athrawon yn holi’n dreiddgar er mwyn datblygu ar wybodaeth flaenorol ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae’r staff cynorthwyol yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi’r dysgu ac mae perthynas waith lwyddiannus yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o’r cwricwlwm, ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Yn y gwersi lle gwelir agweddau o ragoriaeth, mae’r tasgau yn heriol, wedi eu teilwra i anghenion grwpiau unigol a’r disgwyliadau yn gyson uchel.

Defnyddia'r athrawon ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ac mae hyn yn hybu annibyniaeth y disgyblion yn briodol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau'r athrawon yn egluro beth sydd angen ei wneud er mwyn datblygu ymhellach. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athrawon a diwygio ei gwaith er mwyn cyrraedd lefel uwch.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o brofion safonol ac asesiadau athrawon er mwyn olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu tasgau priodol er mwyn symud y dysgu ymlaen i'r cam nesaf.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, gofalgar, diogel a threfnus. Mae iddi awyrgylch hapus iawn lle teimla'r disgyblion yn gwbl ddiogel. Mae'r gofal, cymorth a'r arweiniad yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae sesiynau addoli ar y cyd, ac ystod o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r meysydd hyn.

Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer byw yn iach a lles disgyblion.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cyfathrebu effeithiol da yn bodoli rhwng yr ysgol a'i rhanddeiliaid. Gwneir defnydd buddiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, megis gwasanaeth lles, seicolegwyr addysg, a gwasanaethau meddygol a chymdeithasol, i gefnogi disgyblion, athrawon a rhieni pan fo angen. Er enghraifft, mae'r heddlu yn cydweithio'n agos â'r ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth yr holl ddisgyblion am faterion diogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn nodi eu hanghenion yn gynnar ac yn cymryd camau priodol i sicrhau cefnogaeth addas. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu hadolygu'n briodol gyda'r rhieni. Mae cymorthyddion profiadol yn cynnal y disgyblion yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Bro Allta yn gymuned gynhwysol sy’n annog y disgyblion i feithrin parch a gofal at ei gilydd.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo cyfrifoldeb yn llwyddiannus er enghraifft trwy waith yr e-dechnegwyr sydd yn arwain clwb technoleg gwybodaeth amser cinio er mwyn rhannu eu medrau creu ffilm gyda disgyblion blwyddyn 2. Mae mentrau fel yr ‘arweinwyr buarth’ yn datblygu’r agwedd o oddefgarwch a chydymdeimlad yn effeithiol.

Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau’r ysgol. Mae cynrychiolaeth dda o ferched a bechgyn ymhob agwedd o fywyd ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu mynediad cyfartal i’r ddarpariaeth ac mae gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion ac maent yn llwyddo i ddefnyddio bron pob rhan o’r adeilad i’w llawn botensial. Mae’r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar hyd y coridorau, yn ddeniadol ac yn cefnogi’r dysgu yn effeithiol. Mae’r ysgol wedi buddsoddi mewn amrywiaeth eang o offer ac adnoddau o’r safon uchaf gan gynnwys gliniaduron, llechi, ac offer i ddatblygu’r defnydd o’r ardal allanol. O ganlyniad, mae’r ysgol yn sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol fel bod bron pob disgybl yn cael mynediad llawn i agweddau ar y cwricwlwm.

Mae’r ardaloedd awyr agored ar draws yr ysgol yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol y disgyblion. Mae’r ardal allanol mewn cyflwr da ac yn cael ei chynnal a’i chadw i safon diogel a chadarn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol pwrpasol ac effeithiol ac mae'n cael ei chefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion yn effeithiol. Caiff ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer rhannu arfer dda a sicrhau cysondeb mewn dulliau dysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn casglu data o nifer o ffynonellau uniongyrchol gwerthfawr. Maent yn defnyddio’r wybodaeth er mwyn sefydlu rhaglenni ymyrraeth buddiol sydd yn gwella safonau grwpiau o ddisgyblion yn briodol.

Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn darparu synnwyr o gyfeiriad ar gyfer gwaith yr ysgol yn effeithiol. Mae’r corff llywodraethol yn gwneud y gorau o arbenigedd llywodraethwyr unigol. Maent yn cefnogi’r ysgol fel

ffrind beirniadol ac, ar y cyfan, yn dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau perthnasol gan y staff ynglŷn â chyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn datblygu'n dda.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dda, ac mae athrawon yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol i gynllunio medrau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ofalus gan ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol drwy arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau gwaith disgyblion a dehongli data. Yn achlysurol, mae arweinwyr yn holi barn rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Er hyn, nid yw'r sylwadau hyn yn arwain yn ddigon cyson tuag at newidiadau amlwg er mwyn gwella'r ddarpariaeth neu safonau.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu cyfredol, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n adroddiad cynhwysfawr sy'n galluogi arweinwyr i osod blaenoriaethau synhwyrol o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Mae gan y blaenoriaethau hynny ffocws clir ar wella safonau, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac ar wella perfformiad grwpiau o ddisgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni trwyadl ar gyfer eu cwblhau. Mae cyllid priodol wedi ei adnabod ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn monitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at y blaenoriaethau yn briodol, ac yn adrodd arnynt yn rheolaidd i'r corff llywodraethol.

Mae prosesau hunan arfarnu a sicrhau gwelliant yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau'r ysgol, yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r broses hon yn effeithiol i ledaenu arfer dda a sicrhau cysondeb mewn dulliau addysgu ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn dda. Mae Cyfeillion Bro Allta yn weithgar ac yn codi arian yn gyson at gronfa'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i wella'r ddarpariaeth addysgol trwy brynu piano trydan ac adnoddau addysg gorfforol sydd yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau cerddorol a chorfforol yn dda.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd i gymedroli asesiadau athrawon yn llwyddiannus ac i rannu arfer dda. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r consortiwm ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn cael cysondeb. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda nifer o wasanaethau'r awdurdod a'r ysgol uwchradd leol er mwyn datblygu lles

y disgyblion. Er enghraifft, mae yma broses effeithiol iawn sydd yn lleihau pryderon disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

Gwna'r ysgol ddefnydd rheolaidd o'r eglwys a chapeli lleol i gynnal gwasanaethau a pherfformiadau crefyddol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad ysbrydol y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae perfformiadau côr yr ysgol yn y gymuned yn cyfoethogi'r profiadau dysgu, ac yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd eu hardal leol a'u balchder tuag ati.

Mae gweithgareddau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn esmwyth a llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae athrawon o'r ysgol uwchradd yn dod i'r ysgol yn wythnosol i gynnal gwersi a rhannu arfer dda. Mae cysylltiadau cryf wedi eu sefydlu gyda'r grwpiau cyn-ysgol sy'n sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac wedi ymdrechu'n galed i reoli'r gwariant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa ariannol yn sefydlog a'r diffygion yn y gyllideb wedi eu dileu. Maent yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda i sicrhau bod gan yr ysgol ystod eang a phwrpasol o adnoddau dysgu ac addysgu. Mae'r disgyblion i gyd yn elwa ar y nifer dda o adnoddau dysgu diddorol, ac amgylchedd dysgu symbylus.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau priodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r staff cymorth, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at brofiadau dysgu disgyblion. Mae trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, ac mae'r staff yn cydweithio'n bwrpasol er mwyn defnyddio'r amser yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl ar gyfer rheoli perfformiad staff, sy'n ymateb i'w hanghenion datblygiad proffesiynol a blaenoriaethau'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu gref ac mae diwylliant o gydweithio a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu medrau TGCh da iawn. Mae staff yn rhannu eu harbenigeddau ag ysgolion eraill yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o'r staff yn elwa wrth gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol yn briodol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn strategol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd deallus o system olrhain data i nodi anghenion dysgwyr. Mae gweithgareddau sydd ynghlwm â'r cynllun amddifadedd yn anelu'n briodol tuag at wella medrau llythrennedd a rhifedd ac mae hyn yn sicrhau effaith uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion bregus.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6762368 - YSGOL GYMRAEG BRO ALLTA**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 310 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 41 | 42 | 41 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 78.0 | 85.7 | 90.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 42 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.5 | 85.7 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.4 | 23.8 | 29.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 42 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.1 | 90.5 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.1 | 16.7 | 22.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 41 | 42 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.6 | 95.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 39.0 | 64.3 | 90.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6762368 - YSGOL GYMRAEG BRO ALLTA**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 310 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 34 | 29 | 41 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 94.1 | 96.6 | 90.2 | 90.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 29 | 41 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.1 | 100.0 | 95.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.5 | 17.2 | 22.0 | 34.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 29 | 41 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.1 | 100.0 | 95.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.5 | 17.2 | 19.5 | 28.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 29 | 41 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.1 | 96.6 | 92.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.5 | 27.6 | 36.6 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 29 | 41 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.1 | 96.6 | 97.6 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.5 | 27.6 | 34.1 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 81 | 79<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 81 | 78<br>96% | 3<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 81 | 80<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 81 | 77<br>95% | 4<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 81 | 76<br>94% | 5<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 81 | 80<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 81 | 81<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 81 | 81<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 81 | 77<br>95% | 4<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 81 | 80<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 81 | 77<br>95% | 4<br>5% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 81 | 74<br>91% | 7<br>9% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 87 | 44 | 38 | 4 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 51% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 87 | 48 | 35 | 2 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 55% | 40% | 2% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 86 | 50 | 34 | 1 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 58% | 40% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 87 | 41 | 40 | 2 | 2 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 46% | 2% | 2% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 87 | 29 | 55 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 63% | 1% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 87 | 38 | 43 | 4 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 49% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 87 | 44 | 41 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 51% | 47% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 87 | 37 | 43 | 4 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 43% | 49% | 5% | 1% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 87 | 36 | 43 | 3 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 41% | 49% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 87 | 41 | 44 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 47% | 51% | 1% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 87 | 49 | 35 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 56% | 40% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 71 | 27 | 29 | 3 | 2 | 10 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 41% | 4% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 86 | 33 | 43 | 8 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 50% | 9% | 1% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 87 | 48 | 32 | 3 | 4 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 55% | 37% | 3% | 5% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 86 | 33 | 40 | 9 | 0 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 47% | 10% | 0% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 87 | 39 | 40 | 4 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 45% | 46% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 68 | 28 | 24 | 4 | 1 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 41% | 35% | 6% | 1% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 86 | 29 | 51 | 4 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 34% | 59% | 5% | 1% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 86 | 42 | 34 | 6 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 49% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Tony John Bate | Arolygydd Tîm |
| Llinos Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Catherine Lloyd-jenkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.